Dyddiad: 17/09/2026

Annwyl

**ATISN 27375 – Cais Rhyddid Gwybodaeth - Oriel Celf Gyfoes – Safle Angor**

**Y cais**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 19/08/2026. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

Y ddogfennaeth a ddaeth i law oddi wrth y ddau sefydliad yn y trydydd sector a gyflwynodd fynegiannau o ddiddordeb mewn ymateb i'r alwad am unrhyw safleoedd sy'n cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol Cymru.

**Ein hymateb**

Mae'r wybodaeth y gofynnoch amdani wedi'i hamgáu.

Rwyf wedi penderfynu bod rhywfaint o'r wybodaeth yn y rhestr amgaeedig wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran (nau) 40 a 43 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac felly mae'n cael ei dal yn ôl. Mae'r rhesymau dros gymhwyso'r eithriadau hyn wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad A i'r llythyr hwn.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

**Atodiad A - Cymhwyso eithriadau/eithriadau**

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn rhoi'r hawl i unrhyw un ofyn i awdurdod cyhoeddus sicrhau bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael i'r cyhoedd ehangach. Gan fod rhyddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn golygu ei rhyddhau i'r byd yn gyffredinol, ac nid i'r ceisydd yn unig, mae angen i awdurdodau cyhoeddus ystyried yr effaith o wneud y wybodaeth ar gael i bawb. Ni all unrhyw ddiddordeb personol sydd gan y ceisydd i gael mynediad at y wybodaeth, ddiystyru'r ystyriaethau ehangach hynny.

Rwyf wedi penderfynu dal yn ôl y wybodaeth ganlynol:

Data personol a gynhwysir yn y datganiadau o ddiddordeb a'r dogfennau ategol a dderbyniwyd a gwybodaeth fasnachol o dan Adrannau 40 a 43 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn y drefn honno.

Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r rhesymau dros ymgysylltu ag adran(au) 40 (2) a 43 (2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n hystyriaeth ddilynol o'r Prawf Budd y Cyhoedd.

**Ymgysylltu ag Adran 40 (2) (Data personol) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**

Mae adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cwmpasu data personol.

Mae adran 40(2) ynghyd â'r amodau yn adran 40(3)(a)(i) neu 40(3)(b) yn darparu eithriad absoliwt os byddai datgelu'r data personol yn torri unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data.

Diffinnir 'data personol' yn adrannau 3(2) a (3) o Ddeddf Diogelu Data 1998 ('DPA 2018') ac mae'n golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw a nodwyd neu y gellir ei adnabod. Unigolyn byw adnabyddadwy yw un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn enwedig drwy gyfeirio at ddynodwr fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol yr unigolyn.

Rydym wedi dod i'r casgliad, yn yr achos hwn, bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cynnwys data personol gan gynnwys data trydydd partïon.

O dan Adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae data personol wedi'i eithrio rhag rhyddhau os byddai datgelu yn torri un o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn Erthygl 5 o'r Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU). Rydym o'r farn mai'r egwyddor gyntaf yw'r mwyaf perthnasol yn yr achos hwn. Mae hwn yn nodi bod rhaid i ddata personol fod:

"wedi'i brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw mewn perthynas â'r gwrthrych data"

Y sail gyfreithlon sydd fwyaf perthnasol mewn perthynas â chais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yw Erthygl 6(1)(f). Mae hyn yn nodi:

“Mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion y buddiannau dilys a geisir gan y rheolydd neu gan drydydd parti ac eithrio pan fo buddiannau o'r fath yn cael eu diystyru gan fuddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol gwrthrych y data sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn enwedig pan fo'r gwrthrych data yn blentyn.”

Wrth ystyried cymhwyso Erthygl 6(1)(f) yng nghyd-destun cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mae angen ystyried y prawf tair rhan canlynol:-

1. Y prawf buddiant dilys : A yw buddiant dilys yn cael ei dilyn yn y cais am wybodaeth;
2. Y prawf Angenrheidrwydd: P'un a yw datgelu'r wybodaeth/cadarnhad neu wadu ei bod yn cael ei dal yn angenrheidiol i fodloni'r buddiant dilys dan sylw;
3. Y prawf cydbwyso: A yw'r buddiannau uchod yn goresgyn buddiannau, hawliau sylfaenol a rhyddid y gwrthrych data.

Mae ein hystyriaeth o'r profion hyn wedi'i nodi isod:

**1. Buddiannau dilys**

Mae'r data personol yng nghyd-destun y cais yn ymwneud ag enwau a manylion eraill yr unigolion hynny a nodwyd yn y dogfennau, lle nad yw manylion personol o'r fath eisoes yn y parth cyhoeddus. Mae yna fuddiant dilys mewn deall cynnwys y datganiadau o ddiddordeb a gyflwynwyd.

**2. A oes angen datgelu?**

Nid oes angen datgelu'r data personol er mwyn bodloni’r y buddiant dilys, gan ein bod yn gallu darparu cyd-destun y cais. Nid yw data personol yn y cyd-destun hwn yn ychwanegu unrhyw beth pellach at ddeall y dogfennau y gofynnir amdanynt.

Drwy ddileu’r data personol, gallwn gadw’r cyd-destun y mae buddiant dilys yn bodoli mewn perthynas ag ef heb ddatgelu data personol, sy'n effeithio ar hawliau sylfaenol y gwrthrych data o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

**3. Y cydbwysedd rhwng buddiannau dilys a buddiannau'r gwrthrych data neu hawliau a rhyddid sylfaenol**

Gan fod y golygiad yn bodloni'r buddiant dilys, ac felly nid oes angen datgelu'r data personol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen ystyried cydbwysedd buddiannau ymhellach, ac mae'r wybodaeth yn cael ei dal yn ôl.

Gan na fyddai rhyddhau'r wybodaeth yn gyfreithlon o dan Erthygl 6(1)(f), a chan nad oes unrhyw amod arall o Erthygl 6 yn cael ei ystyried yn berthnasol, ni fyddai rhyddhau'r wybodaeth yn gyfreithlon o fewn ystyr yr egwyddor gyntaf ar ddiogelu data. Felly, mae wedi cael ei dal yn ôl o dan adran 40 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae adran 40 yn eithriad absoliwt ac nid yw'n ddarostyngedig i'r prawf budd y cyhoedd.

**Ymgysylltu ag Adran 43 (2) (Buddiannau Masnachol) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**

Mae adran 43(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn nodi:

“Mae gwybodaeth yn wybodaeth sydd i’w eithrio os byddai ei datgelu o dan y Ddeddf hon yn niweidio, neu’n debygol o niweidio, buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n ei dal).”

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai gwybodaeth fasnachol sy'n ymwneud â thrafodaethau am ddefnydd safle a thrafodaethau gyd-drafod gael ei heithrio rhag cael ei datgelu. Gall ddatgelu'r math hwn o wybodaeth y potensial i danseilio trafodaethau yn y dyfodol a gall arwain at ddatgelu gwybodaeth fasnachol/gyfrinachol.

**Prawf Budd y Cyhoedd**

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r dadleuon o blaid ac yn erbyn rhyddhau'r wybodaeth sy'n cael ei chadw yn ôl o dan Adran 43 (2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a chydbwyso'r dadleuon hyn wrth wneud penderfyniad, ynghylch a ddylid cadw'r wybodaeth hon yn ôl neu ei rhyddhau.

**Dadleuon budd y cyhoedd o blaid datgelu**

Mae yna fudd i’r cyhoedd mewn galluogi unigolion i arfer eu hawliau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth er mwyn cryfhau craffu cyhoeddus ar y brosesau o wneud penderfyniadau, gan gynnwys y rhesymau dros benderfyniadau neu gamau gweithredu a gymerir gan gorff cyhoeddus, ac mewn rhai achosion, i herio penderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau aelodau o'r cyhoedd.

Mae budd cynhenid i’r  cyhoedd mewn sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn gweithio yn dryloyw wrth wneud penderfyniadau, er mwyn hyrwyddo atebolrwydd a gwella ansawdd eu penderfyniadau.

O safbwynt y cais a wnaed, ceir dadl o budd y cyhoedd o blaid datgelu’r wybodaeth, o ystyried y potensial i greu cartref sefydlog i gelf gyfoes yng Nghymru yn y dyfodol, gan adeiladu ar fodel presennol Celf.

Budd pellach i’r cyhoedd yw y gall rhyddhau'r wybodaeth gyfrannu at ddadl yn y dyfodol ar y mater sy'n cael ei ystyried.

**Dadleuon budd y cyhoedd o blaid dal gwybodaeth yn ôl**

Mae yna ddadl gref o safbwynt budd y cyhoedd o blaid peidio â datgelu’r wybodaeth, er mwyn sicrhau uniondeb unrhyw broses gystadleuol bosibl yn y dyfodol a sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus.

Gallai danseilio trafodaethau yn y dyfodol pe bai'r wybodaeth, lle mae'n ymwneud naill ai â thrafodaethau safle masnachol penodol ynghylch safleoedd, yn cael ei ryddhau mewn ymateb i'r cais hwn ac i’r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae peidio â rhyddhau'r wybodaeth hon ar hyn o bryd yn diogelu uniondeb ymarferion archwiliadol yn y dyfodol mewn perthynas â safleoedd posib, er bydd pob parti. Yn seiliedig ar hyn, mae yna ddiddordeb cyhoeddus gref o blaid peidio â datgelu’r wybodaeth, er mwyn sicrhau diogelu uniondeb unrhyw ymarferion yn y dyfodol i archwilio safleoedd posibl ar gyfer cartref sefydlog, a sichrau gwerth am arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus.

**Pwyso a Mesur budd y cyhoedd**

Wrth bwyso a mesur y dadleuon clir a nodir uchod o safbwynt budd y cyhoedd o blaid ac yn erbyn rhyddhau’r wybodaeth dan sylw, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y dadleuon cryf o blaid peidio â datgelu’r wybodaeth o dan Adran 43 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, o ystyried yr effaith debygol o ryddhau, yn drech na’r ffactorau o blaid ei datgelu.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn na fyddai datgelu'r wybodaeth sydd wedi'i heithrio yn hyrwyddo dealltwriaeth o'r wybodaeth y gofynnir amdani.